Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cysylltu a Ffynnu

## Rhaglen Ariannu Celfyddydol y Loteri Genedlaethol

Mai 2022

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Arwyddeg. Ceisiwn ar gais ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd a'ch bod yn ystyried ymgeisio, gallwn eich cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Efallai fod gennych gyflwr sy'n ei gwneud yn anodd i chi fynegi eich syniadau prosiect yn y ffurflen gais. Cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Gweithredwn bolisi cyfle cyfartal.

**Beth y gallwch ei wneud os na allwch dderbyn arian y Loteri Genedlaethol?**

Os na allwch am unrhyw reswm dderbyn arian y Loteri Genedlaethol, uwchlwythwch lythyr gyda'ch cais ar-lein i esbonio pam. Os llwydda eich cais, ceisiwn ariannu eich prosiect o ffynhonell arall.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Ein gweledigaeth | 4 |
| Am y gronfa | 6 |
| Am faint y gallaf ymgeisio? | 8 |
| Am beth y gallaf ymgeisio? | 8 |
| Am ba gostau y gall y grant dalu? | 9 |
| Costau hygyrchedd | 9 |
| Dyddiadau cau | 9 |
| Y broses ymgeisio | 10 |
| Cysylltu â ni | 11 |
| Atodiad 1 – cwestiynau cyffredin | 12 |

## Crynodeb

Dyma ganllawiau rownd 4 o Gysylltu a Ffynnu. Ers lansio'r gronfa yn hydref 2020, rhoddwyd dros £6.5 miliwn i 71 prosiect. Byddwn ni'n gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd y gronfa i lywio ein penderfyniadau yn y dyfodol.

## Ein gweledigaeth

Mae Cysylltu a Ffynnu yn cynnig grantiau o **£10,001 hyd £150,000** dros gyfnodau o hyd at 24 mis i ddatblygu cydweithio rhwng sefydliadau, unigolion, cymunedau a gweithwyr creadigol i gael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar eu gwaith.

Rydym am i ragor o bobl mewn c**ymunedau na chânt wasanaeth cystal gan y celfyddydau** allu eu mwynhau a chymryd rhan ynddynt. Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar **ffurfio partneriaeth yn yr hir dymor** i greu **ffyrdd newydd a gwahanol o weithio**. Bydd hyn yn fodd i'r celfyddydau gyrraedd ymhellach a datblygu'r sector i greu effaith sy'n parhau ar ôl oes y prosiectau a ariannwn.

**Cydweithio yw craidd prosiectau da. Byddant yn cynnwys egwyddorion democratiaeth ddiwylliannol, cydraddoldeb, amrywiaeth a gwaith teg ym mhopeth a wnânt gyda chymunedau.**

Byddant **dan arweiniad artistiaid** ond yn **canolbwyntio ar y gynulleidfa neu'r cyfranogwyr**. Elfen hanfodol yw cael amrywiaeth ehangach o artistiaid, curaduron, cynhyrchwyr a thimau cynhyrchu i greu gwaith dros Gymru a'r tu hwnt.

Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar bobl â **nodweddion gwarchodedi**g a dangynrychiolir o hyd yn y celfyddydau. Y nodweddion yw'r 9 categori o bobl a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol.

Bydd y gronfa'n dal i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo lleisiau, diwylliannau ac ieithoedd amrywiol ond yn 2023/24 rhoddwn flaenoriaeth i brosiectau sy'n bodloni un neu ragor o'r rhain:

- Cynnwys ac adlewyrchu creadigrwydd **pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol**
- Cynnwys pobl a **chymunedau sy'n amrywiol yn ethnig a diwylliannol**
- Cefnogi'r sector i **ymateb, addasu ac arallgyfeirio** i ymateb i heriau newydd, nawr ac yn y dyfodol
- Ffocws ar greu **cyfleoedd newydd i'r Gymraeg**
- Cynnwys ac ymgysylltu hefo unigolion a chymunedau sydd yn profi ac yn byw mewn **anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd**
- Ymateb mewn ffordd arloesol, ddychmygus ac ystyrlon i'r **Argyfwng Hinsawdd**

Ariannwn brosiectau ledled Cymru ond eleni mae gennym bwyslais ar gynigion cyffrous o'r **Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin**:

Bydd y cynigion gorau yn dangos yn glir ddealltwriaeth o'r canlynol:

- **Posibiliadau** – gan ddangos **effaith gref** ar gymunedau, cynulleidfaoedd, cyfranogwyr, y sector, y Gymraeg, yr argyfwng hinsawdd ac ati
- **Blaenoriaeth** – gan fodloni **blaenoriaethau** ein Cynllun corfforaethol 2018-23: Er budd pawb | a dangos ymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru a'r Contract Diwylliannol gyda phwrpas diwylliannol a chymdeithasol
- **Lle** – gan ymgorffori egwyddorion **democratiaeth ddiwylliannol** a galluogi cymunedau a dangynrychiolir a rhai tlawd i wneud penderfyniadau am eu hymwneud ag unrhyw brosiect
- **Partneriaeth** – gyda chydamcanion clir sy'n dangos ffordd arloesol o weithio

**Ni all y gronfa ariannu uwchraddio eich gwaith neu'ch ymarfer arferol** neu ailadrodd yn y tymor byr hen ffyrdd o weithio neu fentrau o'r brig i lawr. Bydd y ffocws ar ddulliau arloesol i gyrraedd yn ddyfnach i'n cymunedau ac annog lleisiau newydd.

Wrth gwrs nid daearyddiaeth sy'n pennu pob **cymuned**. Mae sawl math ar gymuned gan gynnwys rhai artistig a chreadigol.

Wrth sôn am **gynulleidfaoedd**, gwyddom nad ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n mynd i weld perfformiad neu arddangosfa yn unig. Golygwn hefyd y rhai sy'n mwynhau, cymryd rhan yn y celfyddydau a'u profi, boed wyneb yn wyneb neu'n ddigidol ac ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn galw am **ddegawd o weithredu** i gyrraedd **sero**-net erbyn 2050. Felly rhaid i bob busnes, corff cyhoeddus, grŵp cymunedol a dinesydd ymgorffori'r argyfwng hinsawdd yn eu ffordd o feddwl, gweithio, chwarae a theithio erbyn 2030. Mae ein hartistiaid yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd Cyfiawnder Hinsawdd. Hoffwn gael ceisiadau sy'n sôn am sut y gall y celfyddydau ysbrydoli newid a mynd i'r afael â'r pryderon am yr hinsawdd.

## Am y gronfa

Mae dau gam wrth ymgeisio i Gysylltu a Ffynnu.

***Cam 1*** – **mynegi diddordeb** – cewch benderfyniad mewn 6 wythnos. Os llwyddwch, symudwch at gam 2

***Cam 2*** – **ymgeisio** – gofynnwn ichi gyflwyno cynnig llawn a chewch wybod ein penderfyniad terfynol cyn pen 12 wythnos o'r dyddiad cau

Oherwydd y gystadleuaeth am arian, ni allwn ariannu pob cais cymwys na phob mynegiad o ddiddordeb llwyddiannus.

Bydd canllawiau, polisïau neu gyfyngiadau diogelu Covid-19 gan Lywodraeth Cymru a allai fod ar waith ar y pryd yn llywio ein penderfyniadau ariannu.

Aseswn bob mynegiad o ddiddordeb a chais Cam 2 yn ôl y meini prawf canlynol:

- ansawdd a phosibiliadau'r cydamcanion a chryfder a chydraddoldeb y cydweithio a'r bartneriaeth
- cryfder, arloesedd ac ansawdd y cynnig artistig
- y tîm creadigol
- effaith y cynnig a'i fudd i eraill, nawr ac yn y dyfodol
- yng ngham 2: cryfder y cynlluniau ymarferol ac ariannol i gynnal y prosiect a'i fonitro a'i werthuso wrth iddo ddatblygu
- sut bydd y prosiect yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol
- cyrraedd daearyddol ac ymgysylltiad ag ardaloedd a chymunedau â blaenoriaeth
- i ba raddau y mae prosiectau'n cynnwys artistiaid a gweithwyr llawrydd ac i ba raddau y maent yn bartneriaid llawn a chyfartal yn y gwaith

**Mae'r gronfa'n:**

- agored i sefydliadau ac unigolion sy'n cydweithio
- ystyried ceisiadau gan sefydliad lletyol yn unig ac nid gan unigolion
- cefnogi unigolion, neu grwpiau o unigolion i arwain prosiectau
- ddim yn agored i gais gan sefydliad sy'n gweithio ar ei ben ei hun
- gofyn i ymgeisydd lletyol arwain wrth gyflwyno'r cais ar ran y partneriaid a rheoli'r arian a gwneud y gwaith o weinyddu ac adrodd
- croesawu prosiectau lle mae artistiaid a gweithwyr creadigol yn arwain y gwaith (ni ddisgwyliwn i'r sefydliadau lletyol wneud holl waith y prosiect)
- annog ceisiadau cydweithiol sy'n cynnwys sefydliadau celfyddydol a rhai nad ydynt yn gelfyddydol (fel Bwrdd Iechyd, Cymdeithas Dai, Menter Iaith, sefydliad datblygu cymunedol neu amgylcheddol)
- ei gwneud yn ofynnol i brosiectau ddangos gwir gysylltiad â phobl a chymunedau
- gorfod cael artistiaid unigol a gweithwyr creadigol wrth wraidd y prosiect
- agored i gais gan aelodau o'r Portffolio ond cyn ymgeisio, trafodwch eich cynnig gyda'ch swyddog arweiniol

Mae rhagor o wybodaeth am allu ymgeisio i'r gronfa yma: Canllawiau Ariannu'r Loteri Genedlaethol

**Dylai sefydliad fod yn un lletyol i un cais yn unig**. Ond gall sefydliadau ac unigolion fod yn gydweithwyr mewn rhagor nag un cais. Ond dylai pob partner ddangos y gall wneud y gwaith mewn sawl prosiect. Aseswn a yw'r rhai sy'n ynghlwm wrth nifer o brosiectau wedi ystyried yr ymrwymiadau felly.

**Cyfrifon banc**

Gofynnwn ichi roi tystiolaeth am eich cyfrif banc. Rhaid inni gael y dystiolaeth cyn inni allu eich ariannu. Rhaid i'ch dewis gyfrif banc fodloni ein hamodau sydd yn ein canllawiau ar-lein.

## Am faint y gallaf ymgeisio?

Am £10,000 hyd £150,000. Meddyliwch yn ofalus am faint yr ymgeisiwch oherwydd dim ond hyn a hyn o brosiectau mawr y gallwn eu hariannu gyda'r arian sydd gennym.

Gallwch gynnal eich prosiect dros gyfnod hyd at 24 mis.

Bydd y grant yn dod mewn rhandaliadau i'ch galluogi i fod yn hyblyg yn eich cynlluniau ac ymateb i anghenion cyfnewidiol.

## Am beth y gallaf ymgeisio?

1. **Prosiect cydweithiol** sy'n barod i fynd gyda phartneriaethau ar waith, cydamcanion clir a chanlyniadau posibl ar glawr

**neu**

2. **Parhad o brosiect datblygu** i gynyddu uchelgais ac effaith darn o waith gan eich partneriaeth y cawsoch grant eisoes ar ei chyfer

***Cynhaliwn werthusiad o'r cynllun, felly ni allwn dderbyn ceisiadau am Gyfnod Datblygu Cychwynnol yn Rownd 4***.

Mae'r broses ymgeisio a'r ffurflen gais yr un fath ar gyfer popeth uchod.

**Ni allwn ariannu holl gostau eich prosiect**.

**90%** yw'r ganran fwyaf y gallwn eu hariannu.

Rhaid i weddill incwm eich prosiect ddod o ffynhonnell heblaw amdanom ni. Rhaid i o leiaf 10% o incwm eich prosiect ddod o ffynonellau ar wahân i arian y Loteri Genedlaethol. Gall hyn fod yn gymorth ariannol neu mewn nwyddau, sef adnoddau neu wasanaethau â gwerth a gyfrennir at y prosiect ac y byddai'n rhaid ichi dalu amdanynt fel arfer ond nid arian fel y cyfryw. Ni chewch wneud cyfraniad mewn nwyddau o'ch adnoddau eich hun.

## Am ba gostau y gall y grant dalu?

Ystyriwn ariannu unrhyw gost resymol ichi allu cynnal eich prosiect. Nodwn y costau na thalwn amdanynt yma. Rhaid ichi eich talu eich hun a thalu eich tîm yn iawn. Mae rhagor am ffioedd priodol i artistiaid yn ein Dogfennau Cymorth drwy'r ddolen yn y paragraff yma.

## Costau hygyrchedd

Os llwyddwch, gallwn helpu i dalu costau cymorth hygyrchedd i chi neu unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol ar y prosiect fel talu am gostau cyfieithydd Arwyddeg, gweithwyr cefnogi neu offer neu feddalwedd arbenigol.

## Dyddiadau cau

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y dyddiadau cau (mynegi diddordeb yng ngham 1 a chyflwyno cais yng ngham 2) ewch i'n gwefan.

## Y broses ymgeisio

**Cofrestru â'n Porth**

Rhaid i'r sefydliad lletyol fod â chyfrif ar ein porth ymgeisio. Os dyma eich tro cyntaf ar y porth, gallwch gofrestru yma: https://porth.celf.cymru/

**Cam 1: Mynegi Diddordeb**

Bydd eich mynegiad o ddiddordeb yn fodd inni benderfynu a yw eich prosiect yn addas ar gyfer y gronfa. Ein staff a'n hymgynghorwyr allanol fydd yn eu hasesu.

1. Lluniwch eich **Mynegiad o Ddiddordeb** drwy ein porth ar-lein: Hafan · Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae manylion am y cwestiynau yn ein **Cymorth gyda Mynegi Diddordeb**
2. Cyflwynwch eich mynegiad erbyn dyddiad cau Cam 1 sydd ar ein gwefan. Ar ôl inni ei gael, anfonwn atoch yn syth i gadarnhau hynny
3. Rhoddwn wybod ichi'n ysgrifenedig cyn pen 6 wythnos o'r dyddiad cau a ydych wedi llwyddo ai peidio
4. Os llwyddwch, cewch wahoddiad i gyflwyno cais llawn ar gyfer y cam nesaf

**Cam 2: gwahodd ceisiadau**

1. Os llwyddwch yng Ngham 1, cewch eich gwahodd i gyflwyno ffurflen gais ar-lein. Danfonwn y cwestiynau sydd ar y ffurflen gais atoch chi cyn i'r porth ailagor.
2. Cyflwynwch eich cais erbyn y **dyddiad cau sydd ar ein gwefan ar gyfer Cam 2**. Ar ôl inni gael eich cais, afonwn atoch yn syth i gadarnhau hynny
3. Aseswn eich cais yn ôl ein meini prawf gan ystyried ei ansawdd artistig. Asesa panel o'n staff a'n hymgynghorwyr allanol bob cais yn drylwyr
4. Rhoddwn benderfyniad ichi am eich cais cyn pen **12 wythnos o ddyddiad cau Cam 2**. Os llwyddwch, rhaid ichi dderbyn cynnig o'n grant drwy'r porth a gweld unrhyw amodau ychwanegol ar y cynnig. Os na lwyddwch, ysgrifennwn atoch i egluro pam
5. Ar ôl derbyn y cynnig (a mynd i'r afael ag unrhyw amodau arno), talwn ganran o'r grant (gan ddibynnu ar anghenion eich prosiect). Talwn y 10% olaf ar ôl i'r prosiect/gweithgareddau ddod i ben ac ar ôl inni gael eich Adroddiad Diweddu

***Nid gwarant o lwyddiant yw'r gwahoddiad i ymgeisio.**

## Cwestiynau?

Os hoffech wybod a ydych chi neu'ch cais yn gymwys, neu drafod cwestiynau eraill am y gronfa, cysylltwch â'n **Tîm Grantiau a Gwybodaeth**.

Dyma sut:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: Cysylltwch â ni | Arts Council of Wales

Trydar: @Celf_Cymru

Os gwyddoch yn barod eich bod yn gymwys a bod eich prosiect yn diwallu ein blaenoriaethau, cysylltwch â'n Tîm Datblygu drwy ein gwefan: Cysylltwch â ni | Arts Council of Wales neu drwy e-bostio: datblygu@celf.cymru neu ffonio 03301 242733 (dewiswch opsiwn 1, yna opsiwn 4).

Gwnawn ein gorau glas i ymateb ichi yn brydlon. Os ydych am gael galwad yn ôl, gadewch eich rhif ffôn.

03301 242733

9.00am — 5.00pm Llun — Iau
9.00am — 4.30pm Gwener

Cysylltwch â ni | Arts Council of Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

@Celf_Cymru

celfcymruarts

## Atodiad 1 – cwestiynau cyffredin

**Am beth y talwch o ran costau gofal plant?**

Gallwn gyfrannu at gostau gofal plant sy'n angenrheidiol i weithiwr llawrydd unigol allu cymryd rhan yn y prosiect.

Mewn rhai amgylchiadau, talwn gostau gofal plant rhesymol – yn enwedig lle na all cyfranogwyr fforddio dod heb y cymorth – neu ar gyfer gweithgarwch sy'n galluogi grwpiau a dangynrychiolir i gymryd rhan. Esboniwch pam bod eisiau'r costau.

Cynhwyswch unrhyw gostau gofal plant dan wariant yn atodiad y gyllideb.

**A minnau'n weithiwr llawrydd, pam na allaf arwain prosiect?**

Gallwch wneud. Ond am resymau rheoli ariannol, rhaid mai sefydliad yw lletywr y prosiect.

**A minnau'n weithiwr llawrydd, sut gallaf gael chwarae teg yn y prosiect?**

Disgwyliwn i bawb gael cytundeb partneriaeth a fydd yn dangos yn glir swyddogaethau a chyfrifoldebau pob un. Dylai eich cyllideb gynnwys yr holl ffioedd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw ac ati.

**A all gwyliau ymgeisio?**

Gallant, os diwallant ein meini prawf.

**A oes raid i bartneriaethau fod yn newydd neu a allwn ymgeisio os yw'r bartneriaeth ar waith yn barod?**

Nid oes angen i bartneriaeth fod yn newydd. Gall partneriaethau sy'n bodoli eisoes ymgeisio os ydynt yn ymgorffori ethos y gronfa.

**Dwi ddim yn barod i gyflwyno cais eto, a fydd cyfleoedd eraill?**

Rhagwelwn y bydd y gronfa'n un flynyddol. Ond mae grantiau eraill i unigolion a sefydliadau ar gael ar ein gwefan.

**Dwi ddim wedi gweithio gyda fy mhartneriaid ers amser maith, a fydd fy nghais yn dioddef oherwydd hynny?**

Na fydd. Y posibiliadau am bartneriaeth yw'r peth pwysig ym mhob cynnig. Rhaid nodi'n glir eich amcanion a'r hyn sydd wedi dod â chi at ei gilydd. Disgwyliwn i'r berthynas dyfu a gweithiwn gyda chi i gefnogi eich cynnig.

**A ninnau'n sefydliad, a allwn arwain (neu fod yn lletywr) ar gyfer rhagor nag un cais?**

Na allwch. Dim ond ar un cais y gallwch ei arwain ond gallwch fod yn rhan o sawl un.

**Allwn ni ymgeisio i raglenni'r Loteri Genedlaethol eraill yn ogystal â Chysylltu a Ffynnu?**

Gallwch. Gallwch ymgeisio i raglenni eraill os ydych yn gymwys i'w wneud. Gallwch hefyd ymgeisio os oes gennych grant Loteri Genedlaethol gennym sy'n gyfredol.

**A fydd modd cyflwyno rhagor nag un cais yn ystod y ddwy flynedd?**

Ar hyn o bryd dim ond un prosiect byw y gallwch ei gael. Disgwyliwn i'r grant barhau am oes y prosiect.

**Oes raid i sefydliad lletyol fod yng Nghymru?**

Nac oes. Gallwch fod yng Nghymru neu wledydd eraill Prydain cyn belled â bod budd clir i Gymru o'r prosiect.

**Oes modd ystyried gwahanol feysydd gwasanaeth/adrannau o awdurdodau lleol/prifysgolion fel partneriaid gwahanol mewn ceisiadau? A yw'r un peth yn wir am fod yn sefydliad lletyol i wahanol geisiadau?**

Oes. Diffiniwn wahanol feysydd gwasanaeth/adrannau o awdurdod lleol neu brifysgol yn bartneriaid gwahanol. Mae hyn yn golygu y gall gwahanol feysydd gwasanaeth/adrannau letya gwahanol geisiadau neu fod yn bartneriaid mewn gwahanol geisiadau. Disgwyliwn o hyd weld unigolion yn rhan o unrhyw gais cydweithiol. Yn ddelfrydol bydd partner allanol sy'n ychwanegol at yr awdurdod lleol/prifysgol yn rhan o'r cynnig.